**Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop Gorllewin Cymru a'r Cymoedd: Adroddiad Gweithredu Blynyddol 2016**

# Atodiad 1: Crynodeb i Ddinasyddion

## Trosolwg

Mae Cymru'n elwa ar oddeutu €2.4 biliwn o Gyllid yr UE o dan bedair rhaglen y Cronfeydd Strwythurol ar gyfer y cyfnod 2014-2020. Mae hyn yn cynnwys oddeutu €1.2 biliwn o dan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop Gorllewin Cymru a'r Cymoedd er mwyn helpu i gyflawni twf economaidd drwy hyrwyddo lefelau uchel o gyflogaeth gynaliadwy, gan ddatblygu gweithlu medrus ac ymatebol i Gymru, yn awr ac ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Rhaglen wedi ei rhannu'n bum maes blaenoriaeth:

Blaenoriaeth 1: Ymchwil ac Arloesi

Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd Busnesau Bach a Chanolig

Blaenoriaeth 3: Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni

Blaenoriaeth 4: Cysylltedd a Datblygu Trefol

Blaenoriaeth 5: Cymorth Technegol

Dyma'r ail Adroddiad Gweithredu Blynyddol ar gyfer Rhaglen Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae'n rhoi sylw i'r flwyddyn adrodd 2016.

## Prif gyflawniadau 2016


- Erbyn diwedd 2016, roedd €746 miliwn o gyllid yr UE wedi ei fuddsoddi mewn 48 o gynlluniau, gan symbylu cyfanswm o €1.394 miliwn o fuddsoddiad yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.
- Llwyddodd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i gyrraedd ei tharged ymrwymiad o 60% ym mhob un o'r rhaglenni er mwyn helpu i sicrhau y gwneir y defnydd gorau o holl gyllid yr UE cyn i'r DU adael yr UE.
- Cefnogwyd mwy na 2,000 o fusnesau (gan gynnwys sefydlu bron i 1,000 o fusnesau) a chrëwyd 1,300 o swyddi.
- Crëwyd £10 miliwn o arian ymchwil drwy brosiectau'r UE.
- Ym mis Awst, gorffennodd Marine Power Systems y gwaith o gynnal profion graddedig ar ei ddyfais WaveSub
- Ym mis Medi, lansiwyd Cronfa Fusnes Cymru gwerth £226 miliwn, sy'n darparu cyllid i fusnesau bach a chanolig Cymru.

- Cyhoeddodd y cynllun Cyrchfan Denu Twristiaeth mai ei fuddsoddiad blaenoriaethol cyntaf fydd ailddatblygu Canolfan Rock UK Summit yn Nhrelewis i fod yn Ganolfan Antur Twristiaeth ar gyfer De-ddwyrain Cymru.
- Cafodd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ei dynodi yn Awdurdod Rheoli ac Ardystio y Cronfeydd Strwythurol ar gyfer 2014-2020.

## Cynnydd Ariannol

Mae'r siart canlynol yn dangos, fesul Blaenoriaeth, cyfanswm cyllid yr UE sydd wedi ei ddyrannu, faint sydd wedi ei fuddsoddi mewn prosiectau, a faint sydd wedi ei wario gan y prosiectau.

**Siart 1: Cyllid yr UE: Cyllideb, Cymeradwywyd a Gwariwyd**




## Prosiectau a gymeradwywyd hyd at ddiwedd 2016

Mae disgrifiad o'r prosiectau a gymeradwywyd o dan bob Blaenoriaeth Rhaglen ac astudiaethau achos ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru [www.gov.wales/eu-funding](http://www.gov.wales/eu-funding)

**Blaenoriaeth 1: Ymchwil ac Arloesi**

Erbyn diwedd 2016 roedd y Flaenoriaeth hon bron iawn â chyflawni ymrwymiad llawn - wrth i ryw 94% o'r holl gyllid a ddyrannwyd gael ei fuddsoddi mewn saith prosiect. Yn ystod 2016 cymeradwywyd nifer o brosiectau y byddai'r sector Addysg Uwch yn eu harwain, gan gynnwys ASTUTE 2020, FLEXIS ac IMPACT. Mae Ffowndri Gyfrifiadol Prifysgol Abertawe sydd yng Nghampws y Bae wedi cael £17 miliwn o gymorth o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ac mae disgwyl y bydd yn denu incwm sylweddol i Gymru o ran gwaith ymchwil cystadleuol. Yn ystod dyddiau cynnar y cyfnod rhaglennu bu'r pwyslais ar ddatblygu prosiectau strategol a fydd yn darparu elfennau allweddol y Flaenoriaeth; hynny yw, newid sylweddol yn yr economi wybodaeth. Drwy adeiladu ar hyn, gwahoddwyd ceisiadau ar ddiwedd 2016 i ymdrin ag agwedd masnacheiddio y Flaenoriaeth hon. O 2017 rhoddir ystyriaeth a chefnogaeth i gynigion arloesol a all droi gwaith ymchwil ac arloesi yn gynnyrch, prosesau a gwasanaethau newydd a gwell yn llwyddiannus er mwyn mynd i'r afael â dangosyddion perfformiad yn y maes hwn.

**Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd Busnesau Bach a Chanolig**

Erbyn diwedd 2016 roedd oddeutu 88% o'r cyllid oedd ar gael yn y Flaenoriaeth hon wedi ei ymrwymo i saith prosiect. Mae dyraniadau a wneir yn rhan o'r Flaenoriaeth hon yn ffurfio cyfres integredig o fuddsoddiadau o dan arweiniad Llywodraeth Cymru, Canolfan Gydweithredol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru sy'n ffurfio 'Teulu Busnes Cymru'.

Mae rhagamcanion y prosiect o'u cymharu â thargedau'r Flaenoriaeth fel y disgwylir iddynt fod ar y cam hwn o'r rhaglen. Bydd y buddsoddiadau sy'n weddill yn ymdrin â pherfformiad presennol ac unrhyw fylchau sylweddol.

**Blaenoriaeth 3: Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni**

Mae ynni'r môr yn faes arloesol ond heriol iawn o'r rhaglen. Er hynny, gwnaed cynnydd da wrth i 31% o ddyraniad y Flaenoriaeth gael ei ymrwymo i bedwar prosiect erbyn diwedd 2016. Mae gwaith sylweddol yn parhau i fynd rhagddo gyda datblygwyr ynni'r môr sy'n awyddus i ddefnyddio eu dyfeisiau ynni tonnau a llanw mewn dyfroedd yng nghyffiniau'r ardal mae'r Rhaglen yn weithredol ynddi.

Cynhaliwyd gweithdai hefyd i godi ymwybyddiaeth o'r cymorth cyllidol sydd ar gael gan yr UE ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol bychain. Mae nifer o gynlluniau posibl yn cael eu hystyried a bydd mwy o waith hyrwyddo a fydd yn cynnwys cais am Ynni Cymunedol yn digwydd yn ystod gwanwyn 2017.

Roedd gwaith yn mynd rhagddo yn ystod 2016 i ddatblygu cynllun ARBED 3 Llywodraeth Cymru, ac mae disgwyl gweld y cynllun ar waith yn gynnar yn 2017.

Cynlluniau adeiladu cyfalaf yw'r cynlluniau a ariennir yn bennaf yn rhan o'r Flaenoriaeth hon. Er ei bod yn rhy gynnar felly ar y cam gweithredu hwn o'r cynllun i

wneud unrhyw benderfyniadau cadarn ynghylch y ddarpariaeth o'i chymharu â thargedau cyffredinol y Flaenoriaeth, nid oes unrhyw bryderon ynglŷn â'r perfformiad ar hyn o bryd.

**Blaenoriaeth 4: Cysylltedd a Datblygu Trefol**

Erbyn diwedd 2016 roedd oddeutu 67% o ddyraniad y Flaenoriaeth hon wedi ei fuddsoddi mewn 13 o brosiectau. Ymysg y prosiectau a gymeradwywyd yn 2016 roedd prosiectau ffyrdd yr A40 a'r A55, a oedd yn rhan o gyhoeddiad Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith yng nghanol mis Rhagfyr y byddai'n buddsoddi sawl biliwn o bunnoedd mewn seilwaith dros y pum mlynedd nesaf. Roedd buddsoddiadau eraill yn cynnwys prosiectau Cyrchfan Denu Twristiaeth ac Adeiladu'r Dyfodol Llywodraeth Cymru, a fydd yn cefnogi nifer o ddatblygiadau seilwaith sydd wedi eu blaenoriaethu yn ardal y rhaglen. Yn dilyn hyn ym mis Tachwedd, gwnaed y buddsoddiad cyntaf yn rhan o'r prosiect Cyrchfan Denu Twristiaeth i ailddatblygu Canolfan Rock UK Summit yn Nhrelewis yn ganolfan Antur Twristiaeth ar gyfer De Ddwyrain Cymru. Ymysg y prosiectau eraill a gymeradwywyd yn 2016 oedd Canolfan Drafnidiaeth Porth Talbot o dan arweiniad yr Awdurdod Lleol, a Chanolfan Filfeddygon Aberystwyth.

Parhawyd i wneud cynnydd yn ystod 2016 o ran datblygu Cam 2 y prosiect Metro, a fydd yn ategu'r prosiect cyfatebol sy'n rhan o Raglen Dwyrain Cymru.

Yn seiliedig ar brosiectau sydd wedi eu cymeradwyo a chynigion sydd ar y gweill, ymddengys bod pethau'n mynd rhagddynt yn ôl y disgwyl o'u cymharu â'r targedau dangosol.

**Blaenoriaeth 5: Cymorth Technegol**

Erbyn diwedd 2016 roedd mwy na 92% o ddyraniad y Flaenoriaeth hon wedi ei ymrwymo i saith prosiect. Roedd hyn yn cynnwys cymeradwyo'r pedwar 'Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol' (Gogledd Cymru, Canolbarth Cymru, Bae Abertawe a De-ddwyrain Cymru) er mwyn helpu i gefnogi agweddau rheoli a darparu'r Rhaglen drwy sicrhau darpariaeth ranbarthol integredig a mwy o flaenoriaethu economaidd mewn cysylltiad â'r prosiectau. Mae'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol hefyd yn gweithio gyda'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i brawfesur ac ymgysylltu â phrosiectau Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yn rhanbarthol. Tua diwedd 2016 cymeradwywyd prosiect Cymorth Technegol WEFO hefyd er mwyn helpu i reoli gweithrediad y rhaglen yn llwyddiannus.